# Arolygiad o dan Adran 28

# Deddf Addysg 2005

# Adroddiad ar Ansawdd Addysg yn

# Ysgol Garndolbenmaen
**Garndolbenmaen**
**Gwynedd**
**LL51 9SZ**

**Rhif yr Ysgol: 6612049**

**Dyddiad yr Arolygiad: 15/06/10**

**gan**

**Gareth Wyn Jones**
**79820**

**Dyddiad Cyhoeddi: 17/08/10**

**O dan rif contract Estyn: 1118909**

**Cwestiwn Allweddol 3: Pa mor dda y mae profiadau dysgu yn cwrdd ag anghenion a diddordebau dysgwyr a'r gymuned ehangach?**

**Gradd 2: Nodweddion da a dim diffygion pwysig**

101 Darperir amrediad da o gyfleoedd dysgu allgyrsiol i ymestyn a chyfoethogi'r cwricwlwm ac mae nifer dda o weithgareddau ar ôl ysgol fel y Clwb Dawns, Campau'r Ddraig, Athletau,yr Urdd, a Clwb Dal i Fynd yn ystod amser cinio. Trefnir nifer o ymweliadau a phrofiadau addysgol da i safleoedd fel Rhyd Ddu a Glan Llyn.

102 Hyrwyddir datblygiad ysbrydol a moesol y dysgwyr trwy'r gwasanaethau dosbarth, ysgol gyfan a'r gwersi addysg grefyddol sy'n cydymffurfio a gofynion statudol.

103 Ceir cydweithio da gydag ysgolion cynradd y dalgylch wrth rannu adnoddau ac mae cydweithio da iawn gyda'r ysgolion uwchradd. Mae strategaeth pontio gytunedig yn ei le a chynhelir nifer o weithgareddau effeithiol i hyrwyddo y broses o bonito rhwng CA2 a CA3.

**Addysg grefyddol**

**Cyfnod allweddol 1: Gradd 2: Nodweddion da a dim diffygion pwysig**

**Cyfnod allweddol 2: Gradd 2: Nodweddion da a dim diffygion pwysig**

**Nodweddion da**
267 Mae sgiliau disgyblion ar draws y ddau gyfnod yn dda iawn wrth fynegi barn. Dangosant ymdeimlad cryf o barch a chariad tuag at eraill ac ymgorfforir hyn yn llawn yn eu bywyd bob dydd.

268 Yn CA1 mae mwyafrif o'r disgyblion yn dangos ymwybyddiaeth dda iawn o'r angen i barchu'r byd o'u cwmpas a sut i ofalu am greaduriaid sy'r byw ar y tir ac yn y môr. Maent yn ymwybodol o sgîl effeithiau posibl pe na baent yn helpu ei gilydd. Ysgrifennant weddïau personol i ddiolch am faterion sy'n berthnasol iddynt hwy gan gymryd rhan weithredol mewn gwasanaethau dosbarth ac ysgol gyfan.

269 Mae'r disgyblion yn CA1 yn meddu ar wybodaeth dda iawn o rai o brif hanesion y Beibl. Mae ganddynt wybodaeth dda o fannau addoli. Dangosant ymwybyddiaeth dda o rai o'r seremonïau arbennig a gynhelir yno, megis bedydd a phriodas. Mae'r mwyafrif ar draws y cyfnod yn dangos ymwybyddiaeth gadarn o barchu credoau eraill.

270 Yn CA 2, mae mwyafrif y disgyblion yn datblygu medrau ymresymu a dysgu trwy gyfrwng testunau amrywiol ar draws y cwricwlwm. Maent yn meddwl yn dda am faterion crefyddol a materion cyffredinol sy'n codi o ddydd i ddydd. Arddangosant fedrau ymresymu a chyfathrebu da iawn o fewn grwpiau. Dangosant ddealltwriaeth aeddfed o‟r gwahaniaeth rhwng da a drwg,a beth yw ystyr ac effaith temtasiwn.

271 Mae gwybodaeth dda o storiâu Beiblaidd gan mwyafrif o'r disgyblion yn CA2 a chyfeiriant at y Beibl fel cyfrwng darllen dyddiol. Maent yn arddangos ymagweddau cadarn iawn tuag at bwysigrwydd gofalu am y byd a gofal Duw. Maent i gyd yn sylweddoli'r pwysigrwydd o edrych ar ôl yr amgylchedd.

272 Mae disgyblion ar draws CA2 yn gallu trafod crefyddau eraill ac yn deall rhai gwahaniaethau rhyngddynt.

**Diffygion**

273 Nid oe diffygion pwysig ond yn CA2 nid yw'r disgyblion yn ymdrin ac ystod ehangach o arteffactau crefyddol er mwyn dyfnhau eu dealltwriaeth o grefyddau eraill.